**Rhif: WG38367**

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Canllaw Ymarfer Drafft ar y Grant Cymorth Tai

Ymgynghoriad ar ganllaw ymarfer drafft i awdurdodau lleol ar y Grant Cymorth Tai

Dyddiad cyhoeddi: 7 Hydref 2019
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn 29 Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Nod yr ymgynghoriad hwn yw casglu barn am y Canllaw Ymarfer drafft ar y Grant Cymorth Tai. |
| **Sut i ymateb** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 29 Tachwedd 2019<br><br>Cynhelir yr ymgynghoriad hwn am gyfanswm o wyth wythnos oherwydd y gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed eisoes â rhanddeiliaid er mwyn cyd-lunio'r canllaw.<br><br>Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein neu gwblhau'r holiadur a'i ddychwelyd i SupportingPeople@llyw.cymru<br><br>Neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:<br><br>Tîm Cefnogi Pobl<br>Polisi Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn:<br><br>https://llyw.cymru/canllaw-ymarfer-drafft-ar-y-grant-cymorth-tai |
| **Manylion cyswllt** | Am ragor o wybodaeth:<br><br>Tîm Cefnogi Pobl<br>Polisi Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br><br>e-bost:<br>SupportingPeople@llyw.cymru |

## Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth i chi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu’r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy’n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'u cadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi’i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae’n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi’r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda’r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i’ch enw a’ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, nodwch hynny wrth i chi ddychwelyd eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio’ch manylion cyn cyhoeddi’ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu data neu gyfyngu ar brosesu data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn i'ch data gael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost:
Swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Mae manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel a ganlyn:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk/

**Canllaw Ymarfer Drafft ar y Grant Cymorth Tai**

**Ymgynghoriad ar y Canllaw Ymarfer drafft**

**Cynnwys**


| | **Tudalen** |
|---|---|
| **1. Cyflwyniad** | **5** |
| **2. Cefndir – yr achos dros newid** | **5** |
| **3. Y sefyllfa bresennol** | **6** |
| **4. Beth yw'r prif newidiadau?** | **7** |
| **5. Cwestiynau'r ymgynghoriad** | **10** |
| **Atodiad A – Ffurflen Ymateb** | **11** |

## 1. Cyflwyniad

Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn am y canllaw ymarfer drafft ar y Grant Cymorth Tai, a luniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allanol. Mae'r canllaw'n nodi'r fframwaith y dylai awdurdodau lleol ei ddilyn wrth weithredu a gweinyddu'r grant.

Nod y Grant Cymorth Tai (y Grant), a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019, yw gwella canlyniadau amrywiaeth o unigolion sydd ymhlith y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas drwy'r amrywiaeth o ymyriadau cynnar, dulliau atal a chymorth. Prif ddiben y Grant fydd mynd i'r afael ag anghenion yr unigolion hynny o ran tai a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Yn unol â disgwyliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rydym yn llwyr fwriadu i'r grant newydd gael ei roi ar waith mewn ffordd gynhwysol ac mae dull cydweithredol wedi'i ddefnyddio i ddatblygu trefniadau gweinyddol, llywodraethu, cynllunio a monitro ar gyfer y Grant, fel y'u nodir yn y canllaw ymarfer drafft sy'n destun ymgynghoriad.

Er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r canllaw ymarfer drafft, rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru â rhanddeiliaid allweddol, ynghyd â mynychu cyfarfodydd â phartneriaid allweddol, cyfarfodydd un i un ag awdurdodau lleol ac ymarfer galw am dystiolaeth â phrifysgolion a grwpiau lobïo.

Nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn ynghylch a yw'r trefniadau a nodir yn y canllaw ymarfer yn glir ac yn addas at y diben, ac a ydynt yn galluogi comisiynwyr a darparwyr i ateb dibenion craidd y grant a darparu'r gwasanaethau cymorth hollbwysig sydd eu hangen ar gyfer yr unigolion dan sylw.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ymatebion i gwestiynau'r ymgynghoriad, a fydd yn helpu i lywio'r canllaw ymarfer terfynol. Darperir ffurflen ymateb ar ddiwedd y ddogfen hon.

## 2. Cefndir – Yr Achos dros Newid

Sefydlwyd rhaglen Cefnogi Pobl yn 2003 a darparodd arian grant i awdurdodau lleol er mwyn darparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai i rai o bobl fwyaf agored i newid Cymru. Llwyddodd y rhaglen i wneud cyfraniad sylweddol o ran atal digartrefedd a lleihau'r angen am ymyriadau mwy costus gan y GIG a/neu wasanaethau gofal cymdeithasol.

Yn ystod 2018-19, treialodd prosiect Cyllid Hyblyg ffordd newydd o weithio mewn saith awdurdod lleol braenaru. Nod y gwaith hwn oedd cyfuno nifer o grantiau er mwyn gwella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i ddarparu gwasanaethau ataliol sy'n canolbwyntio ar ymyriadau cynnar i'r rhai mwyaf anghenus a rhoi mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol.

Roedd 10 grant ar wahân a'r bwriad oedd cyfuno'r rhain i greu un Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chefnogi. Y grantiau unigol oedd Cefnogi Pobl, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl

Ifanc, Gofal Plant a Chwarae, Atal Digartrefedd, Rhentu Doeth Cymru, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi a Chymunedau am Waith a Mwy.

Ym mis Hydref 2018, penderfynodd y Gweinidogion greu dau grant: Grant Plant a Chymunedau ac un grant cysylltiedig â thai o'r enw'r Grant Cymorth Tai. https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-grant-ymyrraeth-gynnar-atal-chefnogi?_ga=2.191888361.2114001438.1567413190-1082865930.1549278497

O ganlyniad, ers mis Ebrill 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grant Plant a Chymunedau (sy'n cwmpasu Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, Cymunedau am Waith a Mwy a Gofal Plant a Chwarae), ac un Grant Cymorth Tai (sy'n cwmpasu Cefnogi Pobl, Atal Digartrefedd a phwerau Gorfodi Rhentu Doeth Cymru).

Fodd bynnag, mae'r Gweinidogion wedi nodi disgwyliadau clir y dylai'r Grant Plant a Chymunedau a'r Grant Cymorth Tai weithio mewn ffordd ddi-dor, gan ddarparu gwasanaethau integredig lle y bo'n briodol. Mae'r gwaith o lunio a datblygu'r trefniadau newydd wedi'i lywio gan yr egwyddor hon a'r nod o symleiddio prosesau lle bynnag y bo'n bosibl.

## 3. Y sefyllfa bresennol

Daeth y Grant Cymorth Tai i rym ym mis Ebrill 2019, ond mae'r grant yn cael ei roi ar waith mewn dau gam. Ar gyfer 2019-20 mae'r canllawiau, y cyfarwyddiadau a'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth presennol sydd ar waith i gefnogi'r rhaglenni hyn wedi parhau mewn grym, ac eithrio lle mae Canllawiau Atodol y Grant Cymorth Tai (a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019) wedi'u disodli.

Yn ystod 2019-20, rydym wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu set lawn ac integredig o ganllawiau ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Ymgynghorir ar hyn yn y ddogfen ganllaw atodedig, a bydd fersiwn derfynol yn gymwys o fis Ebrill 2020.

Adolygiad o Ddosbarthiad a Chyllid Anableddau Dysgu

Mae dwy elfen arall wrthi'n cael eu hystyried fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Grant Cymorth Tai: dosbarthiad cyffredinol y Grant Cymorth Tai i awdurdodau lleol a'r defnydd o'r Grant Cymorth Tai i gefnogi pobl ag anableddau dysgu.

Mae dau adolygiad ar wahân yn mynd rhagddynt ac mae ymchwilwyr allanol wedi'u comisiynu i wneud gwaith i ddeall natur y ddau fater hyn yn llawn, ac i gasglu tystiolaeth y gellir ei defnyddio i lunio cyngor ar gyfer y Gweinidogion cyn iddynt ddod i benderfyniad yn ddiweddarach yn 2019.

Ymdrinnir â'r gwaith ymgysylltu o ran yr adolygiadau hyn fel ymarferion ar wahân ac nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn. Felly, mae'r canllaw ymarfer drafft ar y Grant Cymorth Tai yn parhau i gynnwys ariannu darpariaeth ar gyfer anableddau dysgu fel y gellir pennu sefyllfa ragosodedig hyd nes y caiff penderfyniad ei wneud.

## 4. Y cynnig hwn – beth yw'r prif newidiadau?

Nod yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y canllaw ymarfer drafft newydd ar y Grant Cymorth Tai. Mae'r canllaw'n cyflwyno'r newidiadau allweddol canlynol i arferion presennol:

- **Diben craidd y grant**

Ehangwyd diben y grant er mwyn cynnwys yr ystod lawn o gymorth sydd ei angen i atal digartrefedd a meithrin gallu. Caiff y grant newydd ei ddiffinio gan ei ddiben tai a bydd yn hyblyg cyhyd ag y gellir dangos effaith gadarnhaol ar allu'r defnyddiwr i sicrhau neu gadw cartref sefydlog. Ei ddiben craidd fydd i "atal digartrefedd a chefnogi pobl i feddu ar y gallu, yr annibyniaeth, y sgiliau a'r hyder i gael gafael ar gartref sefydlog ac addas a/neu aros ynddo".

Mae'r strwythur arfaethedig hefyd yn cyflwyno'r cysyniad o 'Raglen Cymorth Tai', sy'n cynnwys y ddyletswydd statudol i atal digartrefedd a'r holl wasanaethau a gynigir er mwyn helpu pobl i gael gafael ar ddatrysiadau tai addas a'u cynnal. Y Grant Cymorth Tai sy'n ariannu'r elfennau anstatudol. Y nod yw mynd i'r afael â'r gwahaniaethau diwylliannol a'r gwahaniaethau o ran ariannu sydd wedi bodoli rhwng gwasanaethau atal a rhyddhad digartrefedd a gwasanaethau Cefnogi Pobl ac i sefydlu trosolwg strategol o'r system gyfan.

- **Hyd y Cymorth**

Ni fydd y meini prawf yn pennu terfynau amser mwyach, ac nid oes unrhyw derfyn o ran am ba hyd y gellir darparu'r cymorth.  Dylai comisiynwyr benderfynu am ba hyd y dylid darparu'r cymorth ar sail angen, ond dylid ceisio osgoi sefyllfa lle bydd unigolyn yn mynd yn ddibynnol arno. Ni fydd y cymorth yn cael ei nodi fesul grwpiau penodol o ddefnyddwyr mwyach, er mwyn cydnabod anghenion cymhleth yr unigolion y mae angen cymorth arnynt.

- **Ariannu gwasanaethau larwm**

Mae'r canllaw yn ceisio egluro'r meini prawf ar gyfer ariannu larymau, y gellir eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai os yw'r awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad strategol i wneud hynny.

Fodd bynnag, lle y darperir larymau gwifredig mewn lleoliadau tai cymdeithasol a all fod yn gymwys ar gyfer cymorth drwy'r system les, dylid codi tâl amdanynt drwy rent a thaliadau gwasanaeth, ac ni ddylent gael eu hariannu gan y Grant Cymorth Tai.

- **Gwasanaethau Gwybodaeth a Chyngor**

Mae nifer o ddarparwyr cymorth sy'n cael cyllid drwy'r Grant Cymorth Tai yn darparu gwybodaeth a chyngor i unigolion neu gartrefi ar faterion ariannol, cyllidebu a lles sy'n gysylltiedig â chael gafael ar gartref a'i gadw. Mae'r canllaw'n nodi cyngor newydd ar ofynion sicrwydd ansawdd sy'n cefnogi Fframwaith Ansawdd Gwybodaeth a Chyngor ar gyfer Cymru (IAQF Cymru) Llywodraeth Cymru. Rydym wedi trafod y gofynion hyn â

Cymorth Cymru, a chytuno arnynt, ac rydym hefyd wedi cytuno y bydd yn mynd ati y flwyddyn nesaf i ddatblygu arfer da i gefnogi awdurdodau lleol a darparwyr.
Mae'r canllaw hwn hefyd yn egluro'r disgwyliadau o ran darparwyr yn darparu cymorth cwnsela ar gyllidebu a dyledion a'r angen i gadarnhau'r gofynion o ran cofrestru â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

- **Y broses cynllunio strategol**

Nod y model arfaethedig yw sicrhau cysyniad y system atal digartrefedd gyfan drwy'r Rhaglen Cymorth Tai drwy integreiddio'r prosesau cynllunio strategol a'r ddyletswydd statudol i lunio strategaeth ar ddigartrefedd.

Mae'r model arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio Strategaeth ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai a Chynllun Cyflawni lleol blynyddol ar gyfer y Grant Cymorth Tai, yn seiliedig ar asesiad cynhwysfawr o anghenion. Caiff y trefniadau newydd eu rhoi ar waith yn barod i awdurdodau lleol eu cymhwyso ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22, gyda'r nod o ddatblygu'r Strategaeth gyntaf ar gyfer y Rhaglen Cymorth Tai erbyn mis Rhagfyr 2020.

Mae'r model arfaethedig hefyd yn rhoi mwy o ryddid i awdurdodau lleol o ran y ffordd y maent yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach na strwythur cyd-gynllunio penodol.

- **Taliadau, Monitro ac Adrodd**

Symleiddiwyd y systemau arfaethedig ar gyfer taliadau, monitro ac adrodd er mwyn lleihau baich biwrocrataidd y grant newydd.  O ganlyniad, bydd gan Lywodraeth Cymru lai o reolaeth dros yr hyn a gyflawnir ar lawr gwlad, gan roi mwy o hyblygrwydd ac atebolrwydd i awdurdodau lleol.

- **Gwaith rhanbarthol**

Bydd disgwyl i awdurdodau lleol weithio gydag awdurdodau cyfagos er mwyn llunio Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol tebyg i Fyrddau Iechyd.  Ni fydd gan y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol rôl lywodraethu, ond byddant yn fforwm ar gyfer gwaith cydweithredol.

Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn fodd i ddatblygu gwaith cydweithredol rhwng gwasanaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai. Felly, dylai Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol feithrin cydberthynas waith agos â Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel y gellir comisiynu a chynllunio gwasanaethau ar y cyd, a dylent feithrin cydberthynas â'r Cynrychiolwyr Tai ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Disgwylir i awdurdodau lleol ymgysylltu'n llawn â Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol gyda chymorth y Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol. Bydd y Cydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol yn hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau cydweithredol ac yn nodi cyfleoedd i wella canlyniadau drwy gydweithio.

- **Comisiynu a Chaffael**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllaw manylach a chliriach ar gomisiynu a chaffael er mwyn helpu awdurdodau lleol i gomisiynu a chaffael mewn modd mwy hyblyg ac arloesol, a fydd yn eu galluogi i ddatblygu marchnad fwy amrywiol a chynaliadwy. Er enghraifft, rydym wedi ceisio rhoi canllaw cliriach sy'n egluro'r defnydd priodol o grantiau yn hytrach na gweithdrefnau contractio, yn ogystal ag annog y defnydd o gontractau tymor hwy sydd â phrosesau adnewyddu sy'n tarfu llai.

At hynny, rydym wedi atodi dogfen awgrymiadau er mwyn rhoi canllaw ymarferol defnyddiol i gomisiynwyr.

- **Bwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai**

Bwrdd cynghori gweinidogol yw Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, a sefydlwyd fel rhan o'r broses o lywodraethu rhaglen Cefnogi Pobl. Fel rhan o'r trefniadau newydd arfaethedig, caiff y bwrdd ei ailenwi'n Fwrdd Cynghori Cenedlaethol ar Gymorth Tai, a fydd yn cynghori'r Gweinidog ar waith datblygu polisi mewn perthynas â'r sector Cymorth Tai ac effeithiolrwydd y grant wrth gyflawni ei amcanion.

Ni fydd y Bwrdd Cynghori newydd yn etifeddu cyfrifoldebau Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl mewn perthynas â chraffu na llywodraethu grantiau, felly ni fydd yn ofynnol i awdurdodau lleol na strwythurau rhanbarthol adrodd iddo.

Mae gan y bwrdd waith i'w wneud o hyd er mwyn sefydlu'r strwythurau, yr aelodaeth a'r cylch gorchwyl newydd. Felly, dylech nodi nad yw Atodiad D i'r ddogfen ganllaw wedi'i gynnwys. Caiff hwn ei ychwanegu pan fydd wedi'i gadarnhau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn datblygu'r gwaith hwn.

- **Rhwydweithiau Cenedlaethol**

Mae rhwydwaith cenedlaethol yn bodoli ar hyn o bryd ar gyfer yr agenda digartrefedd a'r rhaglen Cefnogi Pobl. Caiff y rhwydweithiau hyn eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru a'u mynychu gan arweinwyr awdurdodau lleol a Chydgysylltwyr Datblygu Rhanbarthol yng Nghymru. Bydd y ddau rwydwaith yn uno i greu un rhwydwaith Cymorth Tai, a fydd yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a phob awdurdod lleol er mwyn rhannu gwybodaeth ac arfer gorau. Bydd y gwaith o gydgysylltu'r rhwydwaith yn parhau i gael ei gefnogi a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru.

## 5. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Cwestiwn 1a** – A yw cymhwysedd ar gyfer y grant wedi'i ddisgrifio'n glir, ac a yw'n gywir o ran ei gwmpas? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei newid am y canllaw?

**Cwestiwn 1b –** A yw'r canllaw drafft yn nodi diben clir ar gyfer y grant, yn eich barn chi? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei ychwanegu at y canllaw?

**Cwestiwn 2** – Bwriedir i'r adran ar gyllid ar gyfer Gwasanaethau Larwm (yn Atodiad F o'r canllawiau) fod yn gliriach ac yn ehangach nag y mae mewn canllawiau blaenorol. A yw'r cwmpas ar gyfer ariannu larymau'n briodol ac yn glir?

**Cwestiwn 3** – A yw'r fframwaith cynllunio strategol yn y canllaw drafft yn darparu digon o'r canlynol, yn eich barn chi?

- Hyblygrwydd
- Atebolrwydd
- Tryloywder

Os nad yw'n gwneud hynny, awgrymwch sut y gellid ei wella.

**Cwestiwn 4 – Gwaith Rhanbarthol**
A yw'r cyfeiriad a bennwyd ar gyfer gwaith rhanbarthol a chwmpas y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol yn gywir, yn eich barn chi?

**Cwestiwn 5** – A yw'r canllaw drafft yn cael unrhyw effaith negyddol ar gydraddoldeb ran y nodweddion gwarchodedig, yn eich barn chi? Os mai Ydy yw'r ateb, eglurwch pam.

**Cwestiwn 6** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllaw drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau andwyol?

**Cwestiwn 7** – Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllaw ymarfer arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau'r canlynol:

- y caiff effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- na chaiff effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Cwestiwn 8** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

**ATODIAD A – Ffurflen Ymateb**

## Ymgynghoriad ar y Canllaw Ymarfer Drafft ar y Grant Cymorth Tai

| | |
|---|---|
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | Eich enw:<br><br>Sefydliad (lle y bo'n berthnasol):<br><br>e-bost/rhif ffôn:<br><br>Eich cyfeiriad: |
| | Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymateb yw 29 Tachwedd 2019.<br><br>Ymatebwch drwy gwblhau'r ffurflen ar-lein neu gwblhau'r holiadur a'i anfon drwy e-bost i SupportingPeople@llyw.cymru<br><br>Neu drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:<br><br>Tîm Cefnogi Pobl<br>Polisi Tai<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Busnes Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ |

<table>
<tr><td colspan="3">1a. A yw cymhwysedd ar gyfer y grant wedi'i ddisgrifio'n glir, ac a yw'n gywir o ran ei gwmpas? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei newid am y canllaw?</td></tr>
<tr><td>Ydy ☐</td><td>Nac Ydy ☐</td><td>Ddim yn gwybod ☐</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau:</td></tr>
<tr><td colspan="3">1b. A yw'r canllaw drafft yn nodi diben clir ar gyfer y grant, yn eich barn chi? Os mai Nac ydy yw'r ateb, beth y byddech yn ei ychwanegu at y canllaw?</td></tr>
<tr><td>Ydy ☐</td><td>Nac Ydy ☐</td><td>Ddim yn gwybod ☐</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau:</td></tr>
<tr><td colspan="3">2. Bwriedir i'r adran ar gyllid ar gyfer Gwasanaethau Larwm (yn Atodiad F o'r canllawiau) fod yn gliriach ac yn ehangach nag y mae mewn canllawiau blaenorol. A yw'r cwmpas ar gyfer ariannu larymau'n briodol ac yn glir?</td></tr>
<tr><td>Ydy ☐</td><td>Nac Ydy ☐</td><td>Ddim yn gwybod ☐</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau:</td></tr>
<tr><td colspan="3">3. A yw'r fframwaith cynllunio strategol yn y canllaw drafft yn darparu digon o'r canlynol, yn eich barn chi:<br>• Hyblygrwydd,<br>• Atebolrwydd,<br>• Tryloywder?<br>Os nad yw'n gwneud hynny, awgrymwch sut y gellid ei wella.</td></tr>
<tr><td>Ydy ☐</td><td>Nac Ydy ☐</td><td>Ddim yn gwybod ☐</td></tr>
<tr><td colspan="3">Sylwadau:</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| **4. A yw'r cyfeiriad a bennwyd ar gyfer gwaith rhanbarthol a chwmpas y Grwpiau Cydweithredol Rhanbarthol yn gywir, yn eich barn chi?** | | |
| **Ydy ☐** | **Nac Ydy ☐** | **Ddim yn gwybod ☐** |
| Sylwadau: | | |
| **5. A yw'r canllaw drafft yn cael unrhyw effaith negyddol ar gydraddoldeb o ran y nodweddion gwarchodedig, yn eich barn chi? [1] Os mai Ydy yw'r ateb, eglurwch pam?** | | |
| **Ydy ☐** | **Nac Ydy ☐** | **Ddim yn gwybod ☐** |
| Sylwadau: | | |
| **6. Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r canllaw drafft yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.**<br><br>**Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol a lliniaru effeithiau negyddol?** | | |
| Sylwadau: | | |
| **7. Eglurwch hefyd sut y gellid llunio neu newid y canllaw ymarfer arfaethedig, yn eich barn chi, er mwyn sicrhau'r canlynol:**<br>• **y caiff effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**<br>• **na chaiff effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg** | | |

[1] Y nodweddion gwarchodedig yw: Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, bod yn feichiog neu ar gyfnod mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw/rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil.

| |
|---|
| Sylwadau: |
| **8. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol.  Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.** |
| Sylwadau: |

A ydych:

| | |
|---|---|
| Yn darparu eich ymateb personol eich hun? | ☐ |
| Yn cyflwyno ymateb ar ran sefydliad? | ☐ |

| | |
|---|---|
| Mae'n bosibl y caiff ymatebion i ymgynghoriadau eu cyhoeddi ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych am i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: | ☐ |